Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD– CYF. DL098**

**Ameru: Arferol**

**Teitl: Dyfodol Gorsaf Heddlu Abergwaun**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Ystadau**

**Cynodeb Gweithredol:**
Mae safle presennol gorsaf heddlu Abergwaun yn rhy fawr i'r gofynion plismona yn yr ardal honno ac mae angen ei ailwampio'n helaeth. Yr oedd yn amlwg bod lefel uchel o ddiddordeb lleol yn safle'r dyfodol, gan y cyhoedd a chan aelodau'r Siambr Fasnach leol, a'r dewis a ffafriwyd mewn ymgynghoriad cyhoeddus oedd aros ar y safle presennol nes bydd Canolfan Gydweithredol Gymunedol newydd wedi'i gwblhau. Yr opsiynau eraill a gyflwynwyd oedd symud i Neuadd y Dref neu symud i mewn i'n safle sydd y tu allan i'r dref yn swyddfeydd y porthladd. Wrth gadarnhau ymrwymiad y Comisiynydd i wrando ar farn gyhoeddus Dyfed-Powys, gwnaed y penderfyniad i aros ar y safle bresennol am flwyddyn arall, gyda'r nod o adolygu eto bryd hynny yng ngoleuni datblygiadau cenedlaethol a ddisgwylir yn ystod y cyfnod hwn a allai effaith sylweddol ar benderfyniadau plismona.

**Argymhelliad:**
Gofynnir i'r Comisiynydd adolygu'r wybodaeth uchod a chadarnhau penderfyniad i weithredu fel sydd wedi'i grynhoi.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 17/01/2019